**PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES** **ELL 15-02(mins)**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 24 Hydref 2002

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

**Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| | **Aelodau** | |
| | Gareth Jones, **Cadeirydd** | Conwy |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Jane Davidson, **Gweinidog**<br>Cynog Dafis<br>Delyth Evans | Pontypridd<br>Y Canolbarth a'r Gorllewin<br>Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | | |
| | **Yn Bresennol** | |
| | | |
| | **Swyddogion** | |
| | Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant (DfTE) |
| | Mike Harper | Pennaeth yr Adran Addysgu ac Arweinyddiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | Elizabeth Williams | Pennaeth y Tîm Polisi Ieuenctid |
| | Judith Cole | Yr Uned Cymorth Ganolog |
| | Catrin Huws | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| | | |
| | **Yr Ysgrifenyddiaeth** | |
| | Chris Reading | Clerc |
| | Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**<u>9.00am hyd 9.10am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau’r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Gwnaeth y Cadeirydd ganmol y Gweinidog am ymgymryd â rhaglen eang o weithgareddau yn ystod y toriad.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu lansiad Sioe Deithio XL Cymru yng Nghasnewydd yn gynharach y mis hwn, er mwyn hyrwyddo gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

1.4 Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Alun Pugh, y Dirprwy Weinidog, a chroesawodd Delyth Evans fel eilydd.

1.5 Gofynnodd y Cadeirydd am ddatganiadau o fuddiant yr aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5. Fe'u nodwyd fel a ganlyn:

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; ei gwr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Weithrediaeth NATFHE |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |

| | |
|---|---|
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; ei wraig yn brifathrawes, yn arolygydd ysgol, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn. |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Helen Mary Jones | Athro Cofrestredig |
| Alun Pugh | Ei wraig yn ddarlithwraig coleg |

**9.10am hyd 10.05am**

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**ELL 15-02 (p.1)**

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith (AGG)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad a chroesawodd yr aelodau y fframweithiau statudol newydd ar gyfer ABCh/AGG ond roeddent yn bryderus ynghylch sut y byddent yn cysylltu â'r agenda arfaethedig ar gyfer 14-19. Teimlwyd hefyd bod y gallu i ddarparu ABCh mewn ysgolion yn amrywio ledled Cymru a gofynnodd yr aelodau sut ellid defnyddio pwerau'r Ddeddf Addysg newydd i helpu staff i wireddu'r agenda hon.

2. Mewn ymateb, gwnaeth y Gweinidog ddatgan y gellid ymgorffori ABCh ac AGG yn y cwricwlwmsylfaenol. Byddai ABCh yn dod yn statudol yn 2003, ac AGG yn 2004. Mynegodd y Gweinidog y byddai GEST yn darparu hyfforddiant i athrawon wella safon ABCH ac AGG ledled Cymru.

**Triwantiaeth**

2.3 Mynegodd yr aelodau bryder y gallai'r systemau a osodwyd i ddelio â phroblemau triwantiaeth gynyddu'r baich biwrocrataidd ar athrawon yn ddamweiniol.

2.4 Mewn ymateb i hyn dywedodd y Gweinidog bod gofyn cael dull systematig a gwneud i ffwrdd â rhyw 25 tasg sy'n amherthnasol i waith dysgu dosbarth yr athrawon, a gosod mesurau mwy effeithiol yn eu lle, er enghraifft cofrestr electronig, a fyddai'n help i fonitro triwantiaeth. Roedd y grp porthora o AALlau a chymdeithasau athrawon wedi ymrwymo i leihau'r baich biwrocrataidd ar athrawon ac ni fyddai'n cymeradwyo unrhywbeth a fyddai'n cynyddu'r beichiau presennol.

**Archwilio Cefndiroedd Athrawon**

2.5 Roedd yr aelodau'n pryderu ynghylch yr amser a dreuliwyd yn prosesu'r ôl-groniad o’r gwaith archwilio cefndiroedd athrawon. Roeddent hefyd yn pryderu nad oedd cyfle i’r ysgolion cyfrwng Cymraeg gyflwyno'r gwaith papur perthnasol yn Gymraeg. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi wedi ystyried rhoi'r

gweithdrefnau archwilio yng ngofal y Cynulliad.

2.6 Esboniodd y Gweinidog y byddai’r broses wedi mynd rhagddi’n esmwythach yng Nghymru pe gweithredwyd y canllawiau mewn ffordd debyg i rannau eraill o’r wlad; ac ni fyddai unrhyw ysgolion wedi eu cau dros gyfnod yr haf. Roedd gofyn archwilio cefndiroedd mwy o athrawon nag yr oedd y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) wedi ei ragweld. Nid oedd yn bosibl rhoi'r weithdrefn archwilio yng ngofal y Cynulliad oherwydd mai swyddogaeth y Swyddfa Gartref oedd hon.

**Grantiau Dysgu'r Cynulliad (GDC)**

2.7 Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog faint oedd wedi manteisio ar y GDC. Roedd yr aelodau o'r farn bod y broses o wneud cais yn rhy gymhleth, ac felly'n atal y bobl a allai fanteisio arnynt fwyaf rhag cyflwyno cais.

2.8 Mewn ymateb i hyn dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ateb cwestiynau ysgrifenedig gan amrywiaeth o aelodau ynghylch y GDC, ac y byddai'n ateb cwestiynau yn y cyfarfod llawn maes o law. Ni fyddai'r ystadegau o'r niferoedd sy'n manteisio ar y GCD ar gael tan fis Tachwedd ond roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod tua 14,000 o bobl wedi cael y grant. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n trafod â'r Adran Waith a Phensiynau. Roedd y broses geisiadau yn cael ei hadolygu'n gyson am fod y flwyddyn hon yn torri tir newydd. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu galw ymgynghorwyr myfyrwyr, undebau ac AALlau ynghyd i gynnal yr asesiad chwarterol cyntaf o'r GDC.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

2.9 Croesawodd yr Aelodau y cynnydd yn natblygiadau TGCh ac awgrymodd Jonathan Morgan y dylai yntau a Huw Lewis gwrdd â’r Tasglu TGCh a NGfL Cymru i fonitro'r cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth a nodir yn adroddiad y Pwyllgor ar TGCh mewn Addysg. Gwnaeth yr Aelodau hefyd holi ynghylch y datblygiadau o ran cyflwyno'r band eang /'SuperJanet'.

2.10 Cytunodd y Gweinidog y byddai'n ddefnyddiol i Huw Lewis a Jonathan Morgan gwrdd â NGfL Cymru/ y Tasglu TGCh. Byddai'r Clerc yn trefnu'r cyfarfod mewn ymgynghoriad ag y Dirprwy Gweinidog. Clywodd y Pwyllgor bod y mater o gyflwyno'r band eang ym mhortffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Cytunodd y Gweinidog i ofyn iir Dirprwy Gweinidog roi'r manylion diweddaraf i'r aelodau ar y mater hwn yn y cyfarfod ar 21 Tachwedd.

**Cam Allweddol 3 (CA3)**

2.11 Roedd yr Aelodau'n pryderu bod y targedau a osodwyd ar gyfer CA3 yn rhy uchelgeisiol a gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi o'r farn bod yr arian yn cael ei dargedu'n effeithlon.

2.12 Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud mai canlyniadau Cam Allweddol 3 eleni oedd y rhai gorau erioed a chyrhaeddwyd targedau yn y Gymraeg yn CA3. Gofynnwyd i Estyn ac ACCAC ddatblygu rhaglen gymorth a chanllawiau a fyddai'n ddefnyddiol wrth ledaenu arfer da. Byddai'r partneriaethau rhwng yr AALlau a'r ysgolion yn hwyluso'r trosglwyddiad rhwng CA2 a CA3. Hefyd roedd rhaid taclo anfodlonrwydd ym mlynyddoedd saith ac wyth. Byddai'r partneriaethau ysgolion cynradd/uwchradd, a'r system gyfun yn sicrhau bod Cymru yn arwain o ran arfer da.

**Deddfwriaeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW)**

2.13 Mynegwyd ychydig o bryder nad oedd rhai pobl a hyfforddwyd cyn 1974 (a heb fynd i ddysgu yn syth wedi cwblhau eu hyfforddiant), yn gymwys i gael Statws Athro Cymwysedig.

2.14 Dywedodd y Gweinidog bod is-ddeddfwriaeth wrthi'n cael ei chyflwyno o dan y weithdrefn gyflym ac y byddai'n unioni'r anghysonder hwn.

**Deddf Addysg 2002 – Is-ddeddfwriaeth**

2.15 Roedd rhai aelodau'n o'r farn y dylai'r Pwyllgor chwarae ran ddigonol yn y gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth, yn arbennig is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Ddeddf Addysg 2002.

2.16 Mynegodd y Gweinidog nad oedd am oedi'r broses ddeddfwriaethol nac am rwystro'r Pwyllgor rhag cymryd rhan yn y drafodaeth. Awgrymodd y Gweinidog y dylai'r aelodau ddweud wrth y Cadeirydd (a'r Clerc) ynghylch unrhyw eitemau is-ddeddfwriaeth, a amlinellir yn Atodiad D o'i hadroddiad, y maent am eu gweld yn dilyn y weithdrefn estynedig. Yna byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn ystyried sut gellid cynnwys hyn yn y flaenraglen waith.

**Graddau a Safonau Lefel A**

2.17 Gofynnodd yr aelodau a fyddai Mike Tomlinson (cyn Brif Arolygydd OFSTED) yn ystyried barn addysg uwch wrth iddo archwilio'r broses ar gyfer cynnal safonau Lefel A cyson, a rôl yr awdurdodau rheoleiddio a'r cyrff dyfarnu.

2.18 Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg gan bwysleisio bod gofyn cynnwys Cymru a Gogledd Iwerddon yn yr ymchwiliad, yn ogystal â Lloegr, oherwydd bod y fframwaith yn cynnwys y tair gwlad. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod dau o bob tri disgybl yng Nghymru yn sefyll arholiadau CBAC a'i bod yn gwbl fodlon ag arweiniad CBAC ac ACCAC ym maes lefel A ac AS.

**Lleihau'r Beichiau Biwrocrataidd ar Athrawon**

2.19 Cyfeiriodd yr Aelodau at gyhoeddiad, ar 22 Hydref, o ymateb yr Ysgrifennydd dros Addysg a Sgiliau i Adroddiad Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) ar

Faich Gwaith Athrawon. Gwnaethant hefyd gyfeirio at gyhoeddiad y Gweinidog ar yr un diwrnod, a oedd yn rhoi braslun o gynigion Llywodraeth y Cynulliad. Gofynnwyd i'r Gweinidog ddisgrifio'r broses o wneud cais am brosiect peilot i gyflogi cynorthwywyr dosbarth/staff cymorth, lle dyrannwyd £3 miliwn at y diben hwn. Mynegodd rhai aelodau bryder na chyhoeddwyd hyn mewn datganiad ar lafar yn y cyfarfod llawn.

2.20 Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog y byddai ymgynghoriad yr Ysgrifennydd Gwladol ar ei chynigion ar gyfer newid contractau athrawon yn arwain at newidiadau a fyddai’n cael effaith sylweddol iawn ar leihau baich gwaith yr athrawon ac yn dylanwadu ar y ffordd ymlaen mewn ysgolion. Nid yw cyflog a thelerau athrawon yn fater sydd wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad, ond mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi athrawon. £3 miliwn sydd ar gael yng nghyllideb eleni (of fis Ebrill 2003 ymlaen) ond bydd hyn yn cynyddu i £15 miliwn yn 2005-2006. I ddechrau, defnyddir yr arian i

dreialu gwahanol drefniadau cymorth, a thargedir y mathau o ysgolion sydd angen yr help mwyaf arnynt. Er mwyn hwyluso hyn, bydd y swyddogion yn cyfarfod â'n partneriaid ym maes addysg - sef undebau'r athrawon a'r AALlau - i benderfynu sut orau i ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael. Nododd y Gweinidog y pryderon ynghylch y cyhoeddiad a wnaed y tu allan i'r cyfarfod llawn ond esboniodd mai ar 22 Hydref y cyhoeddodd y DfES ei ddatganiad: sicrhaodd aelodau'r Pwyllgor y byddent yn cael datganiad ysgrifenedig cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

**Cwricwlwm 14-19**

2.21 Holodd yr Aelodau pryd y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod fframwaith y cwricwlwm 14-19 yn fanwl.

2.22 Atebodd y Gweinidog y byddai cyfnod ymgynghori o 29 Hydref 2002 hyd 20 Ionawr 2003 a bod dadl wedi ei threfni ar gyfer y cyfarfod llawn ar 12 Tachwedd 2002. Byddai eitem sylweddol hefyd yn cael ei rhoi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor ar 19 Rhagfyr.

**Camau i'w cymryd**

- **Cytunodd y Gweinidog ddarparu copi o Gynllun Gweithredu'r Grp Gorchwyl a Gorffen ar Driwantiaeth (ar ôl ei gwblhau) i'r aelodau fel papur i'w nodi mewn cyfarfod yn y dyfodol;**
- **Jonathan Morgan a Huw Lewis i gyfarfod â NGfL Cymru a'r Tasglu TGCh i fonitro'r cynnydd o ran gweithredu adroddiad y Pwyllgor. Y Clerc i drefnu hyn mewn ymgynghoriad ag Alun Pugh (y Dirprwy Weinidog);**
- **Aelodau i roi gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw is-ddeddfwriaeth y maent yn dymuno ei weld yn dilyn y weithdrefn estynedig;**
- **Aelodau i gyflwyno'u sylwadau i'r clerc erbyn dydd Gwener 15 Tachwedd 2002 ar yr ymgynghoriad ar gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n ymwneud â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.**

**<u>10.05am hyd 10.15am</u>**

**Eitem 3: Blaenraglen Waith**

**ELL 15-02 (p.2)**

3.1 Ystyriodd yr aelodau y rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr hydref a chytunwyd ar y camau a ganlyn:

**Camau i'w cymryd**

- **Penderfynwyd cadw'r dewis yn agored ar gyfer cynnal cyfarfod ffurfiol arall o'r Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, yn ôl y galw;**
- **Dylid darparu slot ar agenda'r cyfarfod ar 19 Rhagfyr ar gyfer asesu'r cynigion sy'n ymwneud â chwricwlwm 14-19;**
- **Cytunodd y Gweinidog gynnwys adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd TGCh, ynghylch cynnydd cyflwyno gwasaneth band eang yn ei hadroddiad ar 21 Tachwedd - y Dirprwy Weinidog fydd yn ei gyflwyno.**
- **Bydd Adroddiad y Gweinidog yn rhoi'r diweddaraf ar hynt y datblygiadau yn y sector**

**Addysg Uwch fel ag y maent yn berthnasol i 'Cyrraedd yn Uwch'**

- **Cytunodd y Pwyllgor estyn gwahoddiad i NGfL Cymru a'r Tasglu TGCh i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn Nhymor y Gwanwyn**
- **Cytunodd yr aelodau i gynnwys eitem ar agenda tymor y gwanwyn i adolygu polisïau cludiant ysgolion**

**<u>10.15am hyd 10.35am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 20 munud.

**<u>10.35am hyd 11.15am</u>**

**Eitem 4: Ystyried y Gyllideb Ddrafft**

**ELL 15-02 (p.3)**

4.1 Trafododd y Gweinidog y materion a gynhwyswyd yn ei phapur (ELL 15-02(p.3)) a chyfeiriodd at feysydd yr oedd y Pwyllgor wedi eu blaenoriaethu.

4.2 Croesawyd y gyllideb ddrafft gan yr Aelodau ar y cyfan a gofynnodd y Cadeirydd iddynt nodi unrhyw feysydd yr oeddent eisiau i'r Gweinidog Cyllid fod yn ymwybodol ohonynt cyn dadl olaf y cyfarfod llawn ar 6 Tachwedd.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth a nododd y Cadeirydd y byddai'r pynciau hyn yn cael eu cynnwys yn y llythyr i'r Gweinidog:

- **Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST);** er eu bod yn cydnabod y dyrannwyd ryw £70 miliwn o'r gyllideb at y pwrpas, roedd y Pwyllgor am weld £3 miliwn ychwanegol yn cael ei roi o ffynhonnell arall heblaw'r Prif Grp Gwariant (MEG) er mwyn cynnal y ffigur sylfaenol ar gyfer 2003-04;
- **Yr Iaith Gymraeg;** roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen yn eiddgar at gynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr iaith Gymraeg, a roeddent am iddo nodi'n eglur swm a ffynhonnell unrhyw gyllid ychwanegol. Cytunodd y Gweinidog i ddweud wrth y Pwyllgor pryd y cyhoeddir y Cynllun Gweithredu.
- **Cefnogaeth i fyfyrwyr Addysg Bellach ac Uwch;** croesawodd y Pwyllgor y cyllid ar gyfer cefnogi myfyrwyr, ond roeddent am fod yn sicr na fyddai unrhyw fyfyriwr sy'n dod o'r tu allan i Gymru dan anfantais ariannol o ganlyniad i'r trefniadau cyllid newydd.

4.4 Materion eraill a drafodwyd:

- **Rhaglen Gyfalaf i Ysgolion;** roedd aelodau'n teimlo bod y targedau a osodwyd ar gyfer y rhaglen yn uchelgeisiol. Cytunodd y Gweinidog ond dywedodd bod y Gweinidog Cyllid o blaid parhau â'r buddsoddiad hwn. Roedd yn bwysig iawn bod adeiladau'r ysgolion yn addas i'r pwrpas.
- **Cynnydd yng nghyflogau darlithwyr Addysg Bellach a staff cymorth;** roedd yn bleser gan y Gweinidog gyhoeddi y telir £9 miliwn ychwanegol i ddarlithwyr addysg bellach a staff cymorth,

gyda'r bwriad o sefydlu graddfa gyflog gyffredinol ar gyfer athrawon erbyn 2004. Bydd Fforwm yn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn yn unig o 1 Ebrill 2003 ymlaen, a rhaid i bob coleg ddechrau byrhau'r pwyntiau cyflog yn fuan wedi'r dyddiad hynny. Bydd rhaid i undebau llafur y colegau a sefydliadau addysg bellach weithio mewn partneriaeth i gyfuno'r pwyntiau cyflog. Rhoddodd yr aelodau groeso gwresog i'r cyllid ychwanegol hwn. Roedd diddordeb ganddynt mewn gwybod a fyddai unrhyw hyblygrwydd i gyflwyno newidiadau yn ystod y flwyddyn ac a fyddai'r £2 filiwn ychwanegol yn cael ei glustnodi ar gyfer staff addysg bellach yn y bandiau cyflog is. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'r £2 filiwn yn cael ei glustnodi ac y byddai hi'n trafod ag ELWa pe byddai angen cyflwyno newidiadau arnom.

**Camau i'w cymryd**

- **Y Cadeirydd i ysgrifennu at y Gweinidog gan gadarnhau blaenoriaethau cyllid y Pwyllgor;**
- **Y Gweinidog i gadarnhau pryd fydd y cynllun gweithredu ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cael ei gyhoeddi.**

**<u>11.15am hyd 12.10pm</u>**

**Eitem Pump: Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol - Papur Materion**

**ELL 15-02 (p.4)**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur i'r Pwyllgor a gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu sylwadau ar yr adolygiad. Trafodwyd y materion a ganlyn:

- Dylai'r adolygiad **ganolbwyntio ar y dysgwr**. Roedd yn amserol cynnal yr adolygiad yng ngoleuni agenda 14-19, yr agenda Ymestyn Hawliau, yr adolygiad o wariant gan ELWa a'r Cyngor Cyffredinol, a gwaith Estyn ar y ffordd ymlaen i ymarferwyr.
- Holodd yr Aelodau beth oedd y berthynas rhwng gwaith y **grp cyfeirio** a gwaith y Pwyllgor. Atebodd y Clerc gan ddweud bod y grp yn chwarae rôl ymgynghorol (ar bynciau/siaradwyr) yn unig a'i fod yn cynnwys llefarwyr y pleidiau yn y Pwyllgor.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid creu **clystyrau o ysgolion** yn y dalgylchoedd, pob un â'i gorff llywodraethu ei hun. Dylid asesu'r penderfyniadau a wneir mewn ysgolion yn ôl y modd y maent yn gwneud y mwyaf o gyfraniadau dysgwyr ac unigolion, a'r modd y maent yn cydymffurfio â'r agenda cydraddoldeb.
- Hybu **esblygiad addysg a hyfforddiant** yng Nghymru yw neges yr adolygiad, ac nid cyhoeddi newidiadau strwythurol dramatig.
- Roedd hi'n bwysig i ni anelu at godi'r safon ym mhob ardal, gan gynnwys ardaloedd dan anfantais cymdeithasol-economaidd. Teimlwyd y dylai CA3 fod yn fwy hyblyg er mwyn iddo ddatblygu sgiliau galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn ffitio i mewn i'r fframwaith academaidd. Awgrymwyd y dylid datblygu canolfannau y tu allan i'r tymor ysgol er mwyn cynnal ymweliadau cyfnewid rhyngwladol a hybu pobl i ddatblygu iaith.
- **Ieithoedd tramor modern** – gellid rhoi mwy o hyblygrwydd yn y blynyddoedd cynnar ac yn CA3 er mwyn hybu gwelliant. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor edrych ar enghreifftiau o arfer gorau o Ewrop.
- Teimlwyd y dylai'r adolygiad gynnwys ystyriaeth o **gaffael bwyd lleol** a **chynhyrchu ynni** o fewn ysgolion/cymunedau lleol, a **datblygu cynaliadwy**.
- Darparwyd **rhestr dros dro o siaradwyr** i'r Aelodau a fyddai'n cyflwyno gwybodaeth ar lafar

gerbron y Pwyllgor. Roedd yr aelodau'n teimlo ei bod hi'n bwysig clywed tystiolaeth gan undebau'r athrawon a hefyd gan ddisgyblion yn rhoi amlinelliad o'u profiadau da a'u profiadau gwael mewn ysgolion.

- 5.2 Penderfynodd y Pwyllgor gwblhau gymaint o'r adolygiad â phosibl cyn toriad y Pasg a chyhoeddi adroddiad interim. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor gyflwyno argymhellion i'w olynydd er mwyn iddo allu parhau i ymdrin yn fanylach â rhai agweddau ar yr adolygiad.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol: 4 Gorffennaf a 10 Gorffennaf 2002**

**ELL 13-02 ac ELL 14-02(mins)**

6.1 Gwnaeth y Pwyllgor gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a nodi'r sefyllfa o ran y camau a oedd eto i'w cymryd.